Jeremy Miles AC/AM
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AC, Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

David Rees AC, Cadeirydd,
Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Mike Hedges AC, Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

3 Gorffennaf 2019

Annwyl Gadeiryddion,

Fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn llawn i chi am ein gwaith ar y cyd â llywodraethau eraill mewn perthynas â chysylltiadau rhynglywodraethol a Fframweithiau Cyffredin, a gan adeiladu ar drafodaethau, briffiau technegol a sesiynau tystiolaeth sy'n mynd rhagddynt, ysgrifennaf atoch i dynnu eich sylw at ddeunydd a gyhoeddwyd wedi hynny gan Lywodraeth y DU a oedd yn deillio o'r Adolygiad Cysylltiadau Rhynglywodraethol a'r gwaith ar wahân, ond cysylltiedig, ar y Fframweithiau. Yn benodol, rydym heddiw yn cyhoeddi amlinelliad o'n Fframwaith Cyffredin cyntaf ar Sylweddau Peryglus. Byddwn yn cyhoeddi cynlluniau am fwy o ymgysylltu a chyhoeddi rhagor o Fframweithiau maes o law.

Rwy'n croesawu'r cyhoeddiadau heddiw a'r cynnydd ar y Fframweithiau, a'r ymrwymiad i wneud gwaith pellach ar ddatrys anghydfodau, fel yr wyf wedi bod yn galw amdano. Ond rwy'n parhau i fod yn bryderus am y diffyg cynnydd sylweddol sydd wedi'u wneud ar y Cysylltiadau Rhynglywodraethol a chyflymder y gwaith hwnnw. Mae Llywodraeth yr Alban yn rhannu fy mhryderon yn hynny o beth, ac rydw i yn atodi llythyr a ysgrifennwyd ar y cyd gennym at Lywodraeth y DU sy'n nodi yn fanylach ein disgwyliadau ar gyfer gwaith pellach.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
PSCGBM@gov.wales/YPCCGB@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd datganiad ysgrifenedig yn cael ei anfon at Aelodau'r Cynulliad bore yfory.

Byddem wrth gwrs yn hapus i edrych ar y materion hyn ymhellach gyda'ch Pwyllgorau, a byddwn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am unrhyw ddatblygiadau pellach.

Jeremy Miles AC
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister